0.93 Mae SP Manweb yn Weithredwr Rhwydwaith Dosbarthu trwyddedig ac mae rhwymedigaeth arno i ddarparu atgyfnerthiad sy'n ddichonadwy yn dechnegol ac yn hyfryw yn economaidd, gan roi ystyriaeth briodol i'r amgylchedd a mwynderau. Mae'r llwybr a'r atebion technegol a fabwysiadwyd ar gyfer yr atgyfnerthiad hwn o'r rhwydwaith 132kV wedi arwain at gynnig na fyddai ond yn creu effeithiau arwyddocaol cyfyngedig mewn ardaloedd lleol. Mae'r nifer gyfyngedig o effeithiau arwyddocaol (na ellir eu hosgoi mewn datblygiad o'r math hwn) yn dangos bod SP Manweb wedi cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hyn.

Yr effaith ar reolaeth tir

effeithiau gweddilliol posibl yn deillio o'r cynllun fel nad ydynt yn ddim ond effeithiau andwyl bach.

- 0.81 Tarftr rhywfaint ar weithgareddau ffermio ar hyd llwybr y llinell uwchben arfaethedig yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae polion cynnal mewn caeau yn debygol o achosi rhywfaint o anhwyliustod i weithgareddau ffermio ond ychydig iawn o dartu a gâi ei achosi gan gynnal a chadw'r llinell uwchben. Ystyfir mai bychan fyddai effaith y llinell uwchben drwyddi draw ar fuddiannau amgylcheddol ar hyd coridor y llwybr ac na fyddai'n arwyddocaol.

Yr effaith ar adloniant a thwristiaeth

- 0.82 Mae cynllunio'r llwybr yn ofalus i osgoi cyfleusterau adloniant a thwristiaeth penodol wedi atal effeithiau uniongyrchol ar y mwyafrif o adnoddau cydnabyddedig. Mae'n bosibl yr effeithir ar adloniant a thwristiaeth lle mae'r llinell uwchben arfaethedig yn croesi llwybrau adloniadol, yn cynnwys Camlas Shropshire Union, Llwybr Maelor a Llwybr Clawdd Wat. Yn gyffredinol, caiff yr effeithiau hyn eu hystyried yn rhai bach ac nid ydynt felly yn arwyddocaol.

Yr effaith ar adnoddau mwynol a safleoedd tirlenwi

- 0.83 Byddai'r llinell uwchben arfaethedig yn croesi ardaloedd lle mae'r adnoddau mwynol yn cael eu gwarchod a lle mae gofyn ymgynghori cyn datblygu. Lefe'l fach iawn o effaith a gâi llinell uwchben ar yr adnoddau.
- 0.84 Ni châi'r llinell uwchben arfaethedig unrhyw effaith ar safleoedd tirlenwi.

Yr effaith ar seilwaith

- 0.85 Ni châi'r llinell uwchben arfaethedig unrhyw effaith arwyddocaol ar gysylltiadau ffordd, rheilffordd na chamlas na seilwaith cyffredinol ar hyd coridor y llwybr.

Effaith meysydd electro-magnetig ar iechyd dynol

- 0.86 Mae wedi cael ei awgrymu y gallai fod cysylltiad rhwng amryw o broblemau iechyd mewn pobl a chael cysylltiad â meysydd magnetig amled-dŵer. Mae SP Manweb o'r farn fod rhaid cymryd hyd yn oed bosibllwydd bach iawn o risg i iechyd o ddifrif a bydd yn parhau i weithredu ar gynngor cyfredol y llywodraeth a'r Asiantaeth Dïogelu Iechyd yn y mater hwn. Mae cynllun a gweithrediad y llinell uwchben yn gyson â'r cynngor hwn ac ni ragwellir unrhyw effeithiau andwyl.

Yr effaith o ran sŵn

- 0.87 Mae'r lefelau sŵn a gynhyrchir yn ystod gwaith adeiladu'r llinell ar bolion pren yn debygol o fod yn isel, a

uwchben yn effeithio ar 1.9 o goed ac ardal o 1.34 hectar o grwpiau coed coetir, er mai tocio neu ostwng uchder rhai o'r rhain fyddai'n ofynnol, yn hytrach na'u cwmpo. Yn y tymor canolig i hir, bydd coed a blannir yn lle'r rhai a gaiff eu cwmpo yn aeddfedu a chaiff yr effaith ei lleihau i un anarwyddocaol. Os canfyddir nad oes posibil plannu coed yn lle'r rhai sy'n cael eu cwmpo, byddai'r effaith tymor hir yn parhau'n arwyddocaol, ond ar raddfa leol. Byddai SP Manweb yn gwneud cyfraniad i ymddiriedolaeth byd natur priodol i wneud iawn am y golled hon.

0.75 Bydd y mesurau lliniaru arfaethedig yn sicrhau na chaiff y gwaith o adeiladu a gweithredu'r llinell uwchben arfaethedig unrhyw effaith arwyddocaol ar unrhyw gynffnionedd na ffawna sensitif eraill.

Yr effaith ar archeoleg a threftadaeth ddiwylliannol

0.76 Mae'r asesiad archeoleg yn ystyried effeithiau tebygol adeiladu a gweithredu'r llwybr arfaethedig ar asedau'r dreftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys safleoedd archeolegol, adeiladau hanesyddol, parcdiroedd hanesyddol cofrestredig a thirweddau hanesyddol. Gwnaed asesiadau archeolegol yn y swyddfa, buwyd yn ymgynghori a chynhaliwyd arolwg maes er mwyn nodi'r asedau treftadaeth ddiwylliannol hynny y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio arnynt. Ystyriwyd hefyd y potensial fod y tir o dan y llinell uwchben arfaethedig yn cynnwys oilion archeolegol wedi'u claddu, nad ydynt eto wedi cael eu canfod.

0.77 Mae cyfanswm o 79 o nodweddion treftadaeth archeolegol a diwylliannol wedi cael eu nodi o fewn coridor 1km o amgylch y llwybr arfaethedig. Yn y coridor 100m y gallai effeithiau uniongyrchol ddigwydd ynddo o bosibl, mae dwy Heneb Gofrestredig, un adeilad rhestredig, a phedwar safle nad ydynt wedi cael eu dynodi. Mae'r coridor 100m hefyd yn cynnwys 126 o wrychoedd o bwys hanesyddol. Mae Clawdd Wat yn nodwedd archeolegol ac mae rhai rhannau ohono wedi cael eu dynodi'n Heneb Gofrestredig. Mae'r llwybr arfaethedig yn croesi Clawdd Wat ddwywaith. Mae un o'r croesiadau dros ddarn cofrestredig.

0.78 Osgowyd effeithiau uniongyrchol ar y darn cofrestredig o Glawdd Wat drwy leoli'r unedau cynnal mor bell â phosibl oddi wrth yr heneb, gan arwain at effaith uniongyrchol weddilliol o arwyddoca'd bach. Mae safle'r darn anghofrestredig o'r clawdd mewn perthynas â'r topograffï yn golygu ei bod yn annhebygol y gellir osgoi lleoli polyn cynnal yn agos at yr heneb. Bydd mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith, yn cynnwys rhaglen o gloddio archeolegol o dan reolaeth mewn unrhyw ardaloedd y bydd seiliau'r unedau cynnal yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd hon yn parhau i fod yn effaith andwyol ac arwyddocaol o bwys ar Glawdd Wat.

0.79 Nododd yr asesiad bum safle treftadaeth ddiwylliannol y byddid yn effeithio'n arwyddocaol ar ansawdd eu gosodiad o ganlyniad i'r llinell uwchben arfaethedig. Y rheini yw'r ddwy heneb gofrestredig (Clawdd Wat i'r de o bont Black Brook a gwyddfa Hatod-y-Bwch), adeilad rhestredig Gradd II (Bryn House), a dau safle nad ydynt wedi cael eu dynodi (Camlas Shropshire Union (cangen Llangollen) a'r rhan anghofrestredig o Glawdd Wat a ddisgrifiwyd yn gynharach).

0.80 Mae rhaglen lliniaru gynhwysfawr yn cael ei chynnig i leihau'r effaith ar yr adnodd archeolegol, hysbys ac anhysbys. Bydd rhoi rhaglen o'r fath ar waith yn lleihau'n gyffredinol unrhyw

0.65 Byddai'r effaith ar gymeriad y tirwedd yn digwydd mewn ardaloedd lleol iawn yn hytrach na thros ardaloedd ehangach. Bydd yr effaith ar y rhan fwyaf o'r llwybr yn fach, heb unrhyw effaith ag arwyddocaâ mwy na chanolig

Yr effaith ar ecoleg a chadwraeth natur

0.66 Mae asesiad wedi cael ei wneud o'r effaith bosibl ar fuddiannau ecolegol (cynffnïoedd, derbynyddion ffiora a ffawna) yn sgîl adeiladu a gweithredu'r llinell uwchben arfaethedig. Cafwyd gwybodaeth o nifer o setydlu pa gynffnïoedd a rhywogaethau (gan ganoibwynio ar ffawna a warchodir) sy'n bresennol ar hyd coridor y llwybr arfaethedig. Darparwyd gwybodaeth hanesyddol ychwanegol am fuddiannau ecolegol gan nifer o gyrrff cadwraeth natur.

0.67 Byddai'r llinell uwchben arfaethedig yn mynd yn bennaf drwy laswelltir sydd wedi cael ei wella'n amaethyddol, sy'n cael ei isranu gan wrychoedd. Mae cynffnïoedd eraill i'w helaelth ar hyd y llwybr arfaethedig yn cynnwys coetiroedd llydandail, glaswelltïr corsïog, prysg a thîr â. Ceir hefyd nifer o llynnoedd mewn caeau.

0.68 Mae Safleoedd Madfallod Ardal Cadwraeth Arbennig Johnston ac atonydd Dyfrdwy a Cheiriog (rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig a Llyn Tegid) yn safleoedd bywyd gwylt o bwys rhyngwladol o fewn ardâl yr arolwg. Mae dau safle o bwys cenedlaethol, SDDGA Nant-y-Belan a Choed Frynella a SDDGA Fernhill Pastures, wedi'u lleoli yn ymyl coridor y llwybr. Byddai'r llinell uwchben arfaethedig yn croesi Safle Bywyd Gwylt Moor Wood a Bramble Wood (ardâl o Goetir Hydnafol Lled-naturiol), i'w dau o werth sirol o ran cadwraeth natur.

0.69 Byddai'r llinell uwchben arfaethedig yn croesi ardâl o gynffnïf fen tîr isel, sy'n cael ei hystyried o bwys sirol-cenedlaethol oherwydd prinder. Pennwyd bod cynffnïoedd eraill yn ardâl yr arolwg o bwys lleol.

0.70 Ymysg y ffawna a aseswyd yn unigol yng nghyd-deslun y datblygiad hwn mae:

- dyfrgwn (gwerth sirol);
- madfallod dŵr cribog, adar tîr ffermio, y dyluan wen, y llygoden ddŵr (gwerth dosbarth); a moch daear, ystlumod, ysgyfarnogod a'r pathew (o werth yn y cyffiniau agos).

0.71 Nid yw'r rhywogaethau pysgod yn aton Dyfrdwy wedi cael eu hasesu'n unigol ond cânt eu hystyried yn rhan o'r Ardal Cadwraeth Arbennig yn ei chyfanrwydd, sydd o werth rhyngwladol.

0.72 Fael rhan o ddatblygiad graddol llwybr y llinell uwchben arfaethedig, mae amryw o gyffngiadau ecolegol cydnabyddedig wedi cael eu hystyried. Osgowyd safleoedd dynodedig ac ardaloedd o gynffnïoedd mwy sensitïf lle'r oedd hynny'n bosibl.

0.73 Nodwyd effeithiau a allai fod yn arwyddocaol ar 17 o dderbynyddion ecolegol. Mae'r rhain yn cynnwys safleoedd dynodedig, cynffnïoedd pwysig a ffawna. Caffi mesurau lliniaru eu sefydlu i leihau'r effeithiau hyn i lefelau anarwyddocaol. Bydd dulliau gweithredu 'ymarter gorau' yn cael eu mabwysiadu yn y gwaith adeiladu a bydd mesurau lliniaru yn cael eu defnyddio hefyd mewn rhai achosion lle nad oes effeithiau arwyddocaol.

0.74 Bydd y llinell uwchben yn cael effaith arwyddocaol yn y tymor byr i ganolig ar goetiroedd collddail cymysg ar dir isel (a choed unigol) sy'n gynffnïf o bwysigrwydd lleol. Amcangyfrifir y byddai'r llinell

0.56	Mae'r golygfannau a ddewiswyd yn ddecholiad o'r golygfannau mwyaf sensitif gerllaw'r llinell uwchben arfaethedig, felly mae'r effeithiau gwledol a brofir o fannau eraill yn debygol o fod yn llai. Ni fyddai llawer o'r llinell uwchben arfaethedig ond i'w gweld pan fydd y sawl sy'n edrych yn gymharol agos ati, gan y byddai'r coed a'r gwrychoedd yn cuddio'r golygfeydd.
0.57	Drwyddi draw, mae'r effeithiau gwledol arwyddocaol yn gyfyngedig o ran eu nifer a'u dosbarthiad daearyddol.

Yr effaith ar y tirwedd

Cymeriad y tirwedd

0.58	Yn rhannol, yr ardal yr ai llwybr y llinell uwchben arfaethedig drwyddi yw gororau Cymru rhwng Bryniau Clwyd ac afon Dyfrdwy ac, yn rhannol, wastadedd eang Swydd Amwythig. Tirwedd gwledig yw hwn gyda chaeau a gwrychoedd yn derfynu o'u hamgylch a llawer o goed yn tyfu o'r gwrychoedd, coed derw gan mwyaf, sy'n gwneud i'r ardal ymddangos yn bur goediog.
------	--

0.59	Ni fyddai'r llinell uwchben arfaethedig yn effeithio ar unrhyw ardaloedd o werth cadwraethol a ddynodwyd yn genedlaethol. Byddai tua 5 cilometr o'r llinell uwchben o fewn ardal sy'n agos ar ddyffryn Dyfrdwy sydd wedi'i dynodi am ei gwerth cadwraethol lleol.
------	---

0.60	Byddai'r llinell uwchben o fewn 1km i Barcdiroedd Hanesyddol Cofrestredig Erddig, Wynnstay, Pen-y-lan a Brynkinalt.
------	---

Yr effaith ar gymeriald y tirwedd

0.61	Byddai'r llinell uwchben arfaethedig yn cael effaith fach neu ganollig ei harwyddoca'd ar yr ardaloedd tirwedd a ddynodwyd yn lleol yn ei chyffiniau agos. Dewiswyd yr amlinad er mwyn osgoi effeithio ar lannau serth, coediog, hynod sensitif afon Dyfrdwy ac effaith fach o ran arwyddoca'd a gâi ar gymeriald yr ardal hon.
------	---

0.62	Nid yw'r llwybr yn effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw barciau hanesyddol cofrestredig na gerddi, na'u gosodiad hanfodol, ac ni fyddai'n cael unrhyw effaith ar gymeriald tirwedd yr ardaloedd hyn.
------	--

0.63	Arwyddoca'd bach gan mwyaf a fyddai i'r effaith y mae'r llinell uwchben arfaethedig yn debygol o'i chael ar gymeriald y tirwedd yn y cyffiniau agosaf ati.
------	--

0.64	Aseswyd bod yr effaith ar gymeriald y tirwedd o arwyddoca'd canollig ar raddfa leol am un rhan o dair yn fras o hyd y llinell uwchben arfaethedig. Yn gyffredinol, adrannau yw'r rhain lle bernir bod i'r tirwedd sensitiftrwydd canollig neu uwch i'r math o ddatblygiad a awgrymir. Nodwyd y rhannau hyn fel:
------	---

- cyffiniau Park Elyton;
- y llethr uchaf ar ochr ddwyreiniol dyffryn Ceirrog;
- rhwng St Martin's a Phentre Morgan, yng nghyffiniau Ellesmere Road;
- o amgylch Camlas Shropshire Union;
- Yn nyffryn afon Perry; a'r
- Tirwedd cymharol agored rhwng afon Perry a'r A5.

I ba raddau y mae'r llinell uwchben yn weladwy

0.50 Dewiswyd y llinell arfaethedig er mwyn lleihau'r effaith ar gymuned y tirwedd a'r goligfeydd. Mae'n anochel y bydd llinell uwchben yn weladwy yn y tirwedd. Fodd bynnag, bydd natur y polion pren a ddewiswyd i gynnal y llinell yn hytrach na thyrâu dur (peillionau) yn cyfyngu'n sylweddol ar faint yr effaith hon.

0.51 Byddai'r rhan fwyaf o'r llinell uwchben arfaethedig yn debygol o fod yn weladwy dros bellteroedd cymharol fyr gan fod coed, gwrychoedd a choetiroad yn cuddio'r goligfeydd.

0.52 Mewn rhai ardaloedd, mae llai o sgrinio nag a geir fel arfer yn y tirwedd hwn. Yr ardaloedd hynny yw: rhwng Pentre Bychan (B5605) a'r A483(T), lle mae cyfleoedd i weld goligfeydd ar i lawr o dir sy'n codi tua'r gorllewin, ac o hen domenni rwbwl y pyliau glo yn Hafod a'r Bers; yn ardal Parc Elyton, o amgylch croestfan yr A539, lle mae'r tirwedd yn llai bryniog a mwy agored; lle mae'r llinell yn croesi llethr dwyreiniol, uchaf dyffryn Ceirion yng nghyffiniau Bramble Wood i Ben-y-Bryn, mae'n debygol o fod yn weladwy o ddffryn Ceirion ei hun ac o'r tir sy'n codi tua'r gorllewin, yng nghyffiniau Halton, rhyw 2km i ffwrdd, i'r dwyrain o'r A5(T); yn ardal Pentre Morgan i'r gogledd-ddwyrain o bentref St Martin's, lle mae'r tirwedd yn fwy agored; yn y dyffryn bas lle safi camlas Shropshire Union, lle mae cyfleoedd i weld goligfeydd o dir uwch tua'r dwyrain a'r gorllewin, ac mae'r tirwedd llawr y dyffryn yn gymharol agored; o gwmpas Henlle, ger Hindford, mae'r tirwedd yn gymharol uchel, gwastad ac agored; ac yn yr ardal rhwng Park Hall a'r Ysbyty Orthopedig, lle mae'r tir yn wastad gyda llai o orchudd coed nag a geir yn gyffredinol, ac mae'r tir sy'n codi tua'r gorllewin (i'r gorllewin o'r A5(T)), yn cynnwys caer Hen Groesoswallt.

Yr effaith ar y goligfeydd

0.53 Mae'r newidiadau i'r goligfeydd wedi cael eu hasesu o 36 o olygfannau y cytunwyd arnynt gyda'r awdurdodau cynllunio lleol fel y goligfannau sy'n debygol o fod yn fwyaf sensitif ar hyd y llwybr arfaethedig. Byddai effeithiau gwleddol y cynnig yn arwyddocaol mewn un rhan o dair o'r goligfannau a aseswyd, ond ni fyddai effeithiau gwleddol andwylol difrifol.

0.54 Dim ond pedwar o'r 13 o olygfannau lle mae'r effeithiau gwleddol yn arwyddocaol sydd ymhellach na 250m o'r llwybr arfaethedig. Fel y byddid yn disgwyl, mae'r asesiad yn dangos y byddai'r effeithiau mwyaf yn digwydd mewn goligfeydd sy'n agos at y llinell uwchben arfaethedig, yn hytrach nag o'r goligfannau sydd ymhellach oddi wrthi.

0.55 Rhagwelwyd effeithiau gwleddol canolig yn y goligfeydd o'r manau canlynol:

- ymyl ddwyreiniol yr anheddiad ym Mhenre Bychan;
- y llwybr cyhoeddus (Llwybr Treftadaeth Clawdd Wat) ar hyd Clawdd Wat, ger Gyfeilia, lle mae'r llwybr yn croesi'r clawdd;
- ymyl parcdir hanesyddol cofrestredig Parc Wynnastay;
- yn nffryn afon Ceirion, Ardal Tirwedd Arbenig a ddynodwyd yn lleol, yng nghyffiniau Tenement;
- llwybrau cyhoeddus gyda goligfeydd panoramig dros dirweddau mwy agored i'r gogledd o bentref St Martin's, i'r gorllewin o Wigginton ac i'r de o Rosygadfa;
- yn nffryn bas, cymharol agored, Camlas Shropshire Union; a'r
- B5009 ger adeilad rhestredig Great Fernhill.

0.41 Mae'r atebion pennu llwybr neu'r atebion technegol wedi osgoi neu leihau effeithiau'r llinell uwchben i'r fath raddau fel mai prin yw'r effeithiau arwyddocaol sy'n weddill. Disgrifir y rhain isod.

Effeithiau gwledol

Y cyd-destun gwledol cyffredinol

0.42 Tiri fferm bryniog yw'r rhan fwyaf o'r ardal gyda chryn lawer o orchudd coed. Tirwedd gwledig ydyw a phrin yw'r pentrefi, er bod rhaid ffermydd a phentrefannau bach wedi'u gwasgaru yma ac acw, wedi'u cysylltu gan lonydd cul, troelllog, un trac yn aml. Gwrychoedd tal (dros 2m o uchder) sy'n ffurfio terryau'r mwyafrif o'r rhan. Mae'r rhain yn bwysig, yn effeithio ar y golygfeydd ac ar welededd o'r rhwydwaith ffyrdd, gan nad oes posibl gwerthfawrogi'r olygfa ehangach yn aml ond drwy glwydi caeau. Mewn mannau eraill, mae'r gorchudd coed yn bwysig o ran lleihau'r ardal y gellir gweld y llinell uwchben ohoni. Mae 'effaith haenog' y coed niferus ar derfynau caeau yn neilltuoel o bwysig.

0.43 Mae yna, fodd bynnag, nodweddion ychwanegol yn y tirwedd sy'n effeithio ar welededd a'r cyfleoedd i weld golygfeydd.

0.44 Mae'r tir yn codi'r tua'r gorllewin o'r ardal dan sylw, tua godreion Bryniau Clwyd. Er bod y rhain yn rhy bell i weld y llinell uwchben, maent yn ffurfio nodwedd amlwg a gorwel neu gefnlen uwch mewn llawer o'r golygfeydd tua'r gorllewin.

0.45 Mae dyffryn aton Dyfrdwy, gyda'i hafnau serth a'i lednentydd, hefyd yn dylanwadu ar welededd. Mae'r golygfeydd o fewn y dyffrynnoedd yn amgaaedig gan mwyaf, ac nid yw'r dyffrynnoedd eu hunain yn y golwg efallai o'r cyffiniau ehangach.

0.46 Yng ngogledd yr ardal dan sylw, mae tiffurfiau uwch, artiffisial, hen domenni rwbél y Bers a Hafod yn nodweddion mewn llawer o olygfeydd ac maent hefyd yn fannau da i gael golygfeydd panoramig ohonynt. Tua'r de, mae rhagfuriau arglawnedd bryngaer Hen Groesoswallt yn cynnig man tebyg, hygyrch i'r cyhoedd, y gellir mwynhau golygfeydd ohono.

0.47 Mae simnai a phlufyn mwg cysylltiol ffatri Kronospan yn y Wauun yn nodwedd amlwg mewn llawer o olygfeydd. Mae cefnffordd yr A483/A5 yn mynd drwy'r ardal. Er nad yw wyneb y ffordd yn y golwg yn aml, mae'r polion goleuadau ffordd a'r cylchfannau, cerbydau'n symud a'r strîbedi coetir wrth ymyl y ffyrdd yn amlwg mewn golygfeydd. Bydd y rhan fwyaf o'r bobl a tydd yn gweld y llinell uwchben yn defnyddio'r A483/A5(T).

0.48 Mae Camlas Shropshire Union yn nodwedd llinol mewn golygfeydd o'r tir uwch o'i amgylch.

0.49 Caiff y tirwedd ei groesi gan lonydd troelllog cul a rhwydwaith o lwybrau troed. Er mai cymharol ychydig o bobl sy'n defnyddio'r lonydd a'r llwybrau troed o'u cymharu â'r gefnffordd brysur, mae eu sylw yn fwy tebygol o fod yn canolbwyntio ar werthfawrogi'r tirwedd a'r golygfeydd.

Y llwybr

0.30	Mae'r llwybr arfaethedig yn dilyn llinell sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de yn gyffredinol drwy Fwrdeistref Wrecsam a bwrdeistref Croesoswallt, yn Swydd Amwythig. Mae'n mynd drwy ran fach o ddosbarth Gogledd Swydd Amwythig, yng nghyffiniau pentref St Martin's.	0.31	Mae'r llwybr yn rhedeg o is-orsaf Legacy gan ddefnyddio cebau dan ddaear am 1.6km yn fras. I'r dwyrain o Ffordd Wrecsam, mae'n trosglwyddo i llinell uwchben ar bolion pren ac yn parhau tua'r de-ddwyrain ar draws tîr fferm agored, o amgylch ffin ogleddol Ardal Cadwraeth Arbennig Safleoedd Madfallod Johnstown. Byddai un polyn cynnal yn cael ei leoli o fewn ffin Ardal Cadwraeth Arbennig Safleoedd Madfallod Johnstown.	0.32	Mae'r llwybr yn mynd yn ei flaen tua'r de-ddwyrain drwy dir amaethyddol, gan groesi Clawdd Wat (Henneb Gofrestredig) ger Gyfeilia.	0.33	Mae'r llwybr yn mynd i'r dwyrain o Barc Wynnstay (Parcdir Cofrestredig Gradd I), ac yna'n troi tua'r de drwy dir amaethyddol gan ddilyn coetir ceunant i mewn i ddyffryn Dyfrdwy. Byddai'r llinell uwchben yn croesi afon Dyfrdwy dan ddefnyddio toriad presennol yng nghoetir y dyffryn ar y lan ogleddol.	0.34	I'r de o afon Dyfrdwy, mae'r llwybr yn dilyn cyfuchlinnedau naturiol dyffryn afon Ceiriog i Tenement, lle mae'n pontio'r afon ac yn croes darn anghofrestredig o Glawdd Wat ar ben ochr ddwyreiniol y dyffryn.	0.35	I'r dwyrain o'r dyffryn, mae'r llwybr yn parhau tua'r de-ddwyrain o amgylch ymyl ddwyreiniol pentref St Martin's, yna mae'n dilyn llinell dde-orllewinol drwy ardal Upper Wiggington. Mae'n croesi tîr uchel yng nghyffiniau Camlas Shropshire Union i'r gogledd o New Marton Locks.	0.36	O'r fan hon, mae'r llwybr yn rhedeg tua'r de-orllewin yn gyffredinol, i'r gorllewin o bentrefi bach Henlle a Hindford. Mae'r llwybr yn ffinio â Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Fernhill Pastures. Mae'n mynd heibio i'r gorllewin o adeilad rhestredig Great Fernhill, yna mae'n teithio tua'r gorllewin tuag at yr A5 rhwng Ysbyty Orthopedig Croesoswallt a Park Hall Farm Countryside Experience.	0.37	Byddai'r llinell uwchben yn gorffen wrth ymyl yr A5, a châi'r cysylltiad 1.4km terfynol ag is-orsaf Croesoswallt ei ddarparu drwy gebi dan ddaear ochr yn ochr â'r A5.	0.38	Ymgymeryd â'r broses o Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol er mwyn canfod effeithiau arwyddocaol tebygol y llinell uwchben arfaethedig. Disgrifir yr effeithiau hyn yn yr adrannau dilynol. Gallant fod yn effeithiau sy'n deillio o'r gwaith o adeiladu'r llinell uwchben neu o'i gweithredu yn ystod ei hoes ar ei hyd.	0.39	Drwy gydol y broses o Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol, mae SP Manweb wedi ceisio cyfyngu ar effeithiau'r llinell uwchben arfaethedig. Lle nodwyd effeithiau amgylcheddol arwyddocaol, efallai i'r cynig gael ei newid i'w hosgoi, neu fod mesurau wedi cael eu datblygu i leihau neu wneud iawn am yr effeithiau hynny. Gelwir y camau hyn yn lliniaru.	0.40	Ymgymeryd â llawer o'r gwaith o bennu'r llwybr er mwyn osgoi problemau amgylcheddol posibl.
------	---	------	---	------	--	------	---	------	--	------	--	------	---	------	--	------	---	------	---	------	---

Effeithiau amgylcheddol

- Ardaloedd cadwraeth arbennig safleoedd bywyd gwyllt o bwys rhwyngwladol, sef Safleoedd Madfallod Johnstonw ac afon Dyfrdwy; a'r
- Tŷr bryniog gyda gorchudd helaeth o goed aeddfed a phatrwm anheddu gwasgaredig.

0.21. Catfod llwybr y llinell uwchben ei ddatblygu drwy nifer o opsiynau nes cyrraedd y 'Llwybr a Gai ei Ffatrio', a oedd yn cynrychioli dealltwriaeth SP Manweb o'r ffordd fwyaf priodol i ddarparu'r atgyfnerthiad. Ystyriwyd opsiynau gan gadw mewn cof y ddwy rwyngedigaeth i redeg rhydwaiith effeithlon a chost effeithiol ac i ystyried yr amgylchedd a mwynnderau.

0.22. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r Llwybr a Gai ei Ffatrio ym mis Chwefror 2007. Cynhyrchwyd deunydd arddangos a Dogfen Ymgynghori. Anfonwyd y Ddogfen Ymgynghori at amrywiaeth eang o ymgynghoreion i geisio'u barn ar y cynnig.

0.23. Yn dilyn pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r cynllun, nodwyd cynnig amgen i ran ddeheuol y llwybr. Ar ôl ail glych ymgynghori, ystyriwyd sylwadau'r rhai a ymatebodd i'r cynnig a chadarnhawyd y cynnig amgen fel y 'Llwybr Arfaethedig'.

0.24. Gofynnodd SP Manweb i'r adran berthnasol o'r llywodraeth am ei barn ynglŷn â'r materion a ddylai gael eu hystyried yn yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (y Farn Gwmpas). Ymgynghorwyd â'r awdurdodau cynllunio lleol a rhoddasant eu barn. Ymgwymerwyd â'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar y sail hon..

Y llinell uwchben arfaethedig

0.25. Fel arfer, mae cysylltiadau 132kV ar ffurf llinellau uwchben sy'n cael eu cludo ar dryrau o ddelltwaiith dur hyd at 26m o uchder. Catfod math newydd o llinell uwchben, a gynhelir gan bolion pren hyd at 16m o uchder, ei awgrymu ar gyfer yr atgyfnerthiad hwn. Mae unedau cynnal byrrach yn golïgu bod y rhychwant rhwng y polion yn fyrrach. Gyda llinellau o'r math hwn sy'n cael eu cynnal gan bolion pren, y rhychwant ar gyfartaledd yw 80m, o'i gymharu â chyfartaledd o 280m gyda system tyrau delltwaiith dur 132kV. Tybiwyd y byddai'n haws cymathu'r polion pren i'r tirwedd rhwng Legacy a Chroesoswallt, lle mae gorchudd helaeth o goed aeddfed.

0.26. Mae pob uned gynnal bren yn cynnwys dau bolyn fel arfer gyda gwaith dur uwchben yn cynnal yr ynysyddion a 3 dargludydd a'r wifren ddaearu. (Y dargludyddion yw'r gwifrau sy'n cario'r trydan). Gweler Ffigur NTS2: Mathau Arfaethedig o Unedau Cynnal.

0.27. Datblygwyd y cynnig fel ei fod yn darparu llwybr rhwng yr is-orsofodd sy'n cwtogi'r hyd gofynnol i'r eithaf ac, ar yr un pryd, yn parchu'r cyfyngiadau amgylcheddol cyn belled â phosibl.

0.28. Mae cyfyngiadau lle ar y naill ben a'r llall o'r cysylltiad yn golïgu y câr atgyfnerthiad arfaethedig ei gysylltu â'r is-orsofodd yn Legacy a Chroesoswallt gan geblau dan ddaear.

0.29. Mae'r atgyfnerthiad arfaethedig yn cynnwys llinell uwchben 20.6km o hyd, gyda chyfanswm o 3km o geblau dan ddaear yn cysylltu â'r is-orsofodd. Dangosir y llwybr arfaethedig ar Ffigur NTS1: Y Llwybr Arfaethedig.

Dewis llwybr, ymgynghori â'r gymuned a chmpasu

0.11	Mae angen y llinell uwchben yn yr ardal hon i atgyfnerthu'r rhwydwaith dosbarthu trydan rhwng yr is-orsafodd yn Legacy (Wrecsam) a Chroesoswallt.
0.12	Mae gan SP Manweb drwydded dan Ddeddf Trydan 1989. Un rhwymedigaeth o dan y drwydded hon yw diogelu'r amgylchedd a mwynnderau. Mae SP Manweb wedi bod yn ymyrbodol o'r ddyletswydd hon wrth gynllunio'r llinell a dewis y llwybr.
0.13	Ymgymrwyd ag astudiaethau helaeth i gantod y llwybr a'r cynllun technegol mwya't addas ar gyfer y llinell uwchben. Gwnaed hyn fesul cam drwy'r broses o Asesu Effieithiau Amgylcheddol er mwyn deall y cydbwysedd rhwng ystyriaethau technegol ac ystyriaethau amgylcheddol yn llawn.
0.14	Ymgymrwyd â'r gwaith pennu llwybr i ddechrau ar sail rheolau sydd wedi hen ennill eu plwyf yn y diwydiant trydan. Cafodd y broses ei haddasu i adlewyrchu'r ddealltwriaeth gynyddol o'r cyfyngiadau lleol penodol a nodwyd drwy'r broses Asesu Effieithiau Amgylcheddol.

Dewisiadau amgen

0.15	Edrychwyd ar nifer o lwybrau gwahanol i'r llinell uwchben arfaethedig cyn cadarnhau'r llwybr sy'n cael ei ffafrio. Ystyriwyd gwahanol leoliadau (is-orsafodd) y gellid atgyfnerthu'r rhwydwaith ohonynt. Roedd y rhain yn cynnwys cysylltiadau o Amwythig, yr Eglwys Wen, Cei Connah, Crewe a Thrawsfynydd.
0.16	Yn ogystal â lleoliadau amgen i llinell uwchben i atgyfnerthu'r cyflenwad i ardaloedd i'r de o Legacy, ystyriwyd dulliau amgen hefyd o atgyfnerthu'r rhwydwaith yn yr ardal rhwng Legacy a Chroesoswallt. Roedd y rhain yn cynnwys uwchraddio'r llinellau dosbarthu 132kV presennol rhwng Legacy a Chroesoswallt a darparu'r atgyfnerthiad drwy ddefnyddio cebiau dan ddaear, yn hytrach na llinellau uwchben.
0.17	Atgyfnerthu'r rhwydwaith 132kV drwy llinell uwchben rhwng Legacy a Chroesoswallt yw'r ateb mwya't economaidd a mwya't derbyniol yn amgylcheddol.
0.18	Archwiliwyd pedwar opsiwn cyffredinol o ran llwybr y llinell uwchben i ddechrau; • I'r dwyrain o'r A483(T)/A5; • I'r gorllewin o'r A483(T)/A5; • Dilyn coridor ffordd yr A483(T)/A5; ac • Yn gyfochrog â'r llinell uwchben 132kV presennol rhwng Legacy a Chroesoswallt.
0.19	Cynigiai'r opsiwn i'r dwyrain o'r A483(T)/A5 fwy o gyflleoedd i gymathu llinell uwchben yn y tirwedd ac roedd iddo lai o gyfyngiadau na'r opsiynau eraill. Canolbwytwyd ar yr ardal hon wrth wneud gwaith manwl pellach i ddewis llwybr.
0.20	Y prif faterion yr oedd angen rhoi sylw iddynt wrth bennu'r llwybr oedd: • Croesi dyffryn Dyfrdwy, sydd ag ochrau serth ac yn goedlog iawn; • Presenoldeb sawl parcdir hanesyddol yn yr ardal: Erddig, Wynnstay, Brynkinalt; • Camlas Shropshire Union (cangen Llangollen); • Clawdd Offa a Chlawdd Wat;

Rhagymadrod

0.1	Mae'r Crynodeb Annhechnegol hwn yn rhan o'r Crynodeb Amgylcheddol a baratowyd o dan Reoliadau Gwaith Trydan (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2007 ar ran ScottishPower Manweb (SP Manweb).
0.2	SP Manweb yw'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu dros ardal sy'n cwmpasu Swydd Gaer, Gogledd a Chanolbarth Cymru a rhannau o Lannau Mersï. Mae'n ofynnol iddo o dan Ddeddf Trydan 1989 ac o dan delerau ei Drwydded Cyflenwi Trydan 'ddatblygu a chynnal system cyflenwi trydan effeithlon, cydgyssylltiedig a diwasttraff.
0.3	Cafodd y Datganiad Amgylcheddol ei baratoi yn gefn i gais o dan Adran 37 o Ddeddf Trydan 1989 am atgyfnerthu'r rhwydwaith dosbarthu 132kV rhwng is-orsaf Legacy (Wrecsam) a Chroesoswallt. Gwneir y cais hwn o dan Adran 37 yn uniongyrchol i'r Gweinidog dros Ynni a Newid Hinsawd, yn hytrach na'r awdurdodau cynllunio lleol. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn ymgynghori â'r awdurdodau cynllunio lleol wrth ystyried y cais.
0.4	Mae'r cais Adran 37 yn cynnwys cais ar i ganiatâd cynllunio tybiedig gael ei roi i'r llinell uwchben yn unol ag Adran 90(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
0.5	Dangosir y llwybr arfaethedig ar Ffigur NTS 1: Y Llwybr Arfaethedig.
0.6	Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn egluro'r cefndir o ran sut y dewiswyd y llwybr, y polisiâu cynllunio perthnasol a materion eraill. Mae'n rhoi manylion y cysylltiad arfaethedig ynghyd â chanlyniadau astudiaethau penodol yr ymgymeryd â nhw i asesu effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol y cynnig.
0.7	Mae angen yr atgyfnerthiad i sicrhau bod SP Manweb yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol i ddatblygu a chynnal system cyflenwi trydan effeithlon, cydgyssylltiedig a diwasttraff, ac i ddiogelu'r cyflenwad i 80,000 o gwsmeriaid yn yr ardal i'r de o Wrecsam.
0.8	Wrth bennu'r llwybr arfaethedig, mae SP Manweb wedi ceisio cyfuno sensitifrwyd o ran y llwybr a ddewiswyd gyda mesurau lliniartu priodol. Cânt'r mesurau eu cymryd i osgoi neu leihau'r effeithiau amgylcheddol. Mae SP Manweb wedi ymgynghori'n aml â chyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol. Mae gwybodaeth am y prosiect wedi cael ei darparu i'r cyhoedd ar wahanol gamau o'r prosiect fel y gallai SP Manweb wrando ar bryderon y cyhoedd ynglŷn â'r cynnig ac ymateb iddynt.
0.9	Bydd y llinell uwchben arfaethedig o fewn ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Croesoswallt a Chyngor Dosbarth Gogledd Swydd Amwythig.
0.10	Mae SP Manweb wedi derbyn bod angen Asesiad o Effaith Amgylcheddol y llinell uwchben hon ac mae wedi paratoi Datganiad Amgylcheddol i adrodd canfyddiadau'r Asesiad. Mae'r broses Asesu Effeithiau Amgylcheddol yn ceisio nodi 'effeithiau arwyddocaol tebygol' y cynnig.

Rhagair

Mae Datganiad Amgylcheddol wedi cael ei baratoi, ar ran ScottishPower Manweb, yn gefn i gais am atgyfnerthu'r rhwydwaith dosbarthu 132kV rhwng Legacy (Wrecsam) a Chroesoswallt.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys y dogfennau canlynol:

- Crynodeb Annhechnegol
- Y Datganiad Amgylcheddol (Rhan 1)
- Y Datganiad Amgylcheddol: Ffigurau (Rhan 2)
- Atodiadau Technegol (Rhannau 3 a 4)
- Atodiadau Technegol Cyfrinachol: Rhwygogaethau a Marchodir (Rhan 5).

Gellir cael rhagor o gopiau o'r adroddiadau hyn oddi wrth:

SP Energy Networks
Environmental Planning
3 Panton Way
Penton
Glannau Mersi
CH43 3ET
Ffôn: 0151 609 2568

Gellir cael copïau o'r Datganiad Amgylcheddol oddi wrth SP Manweb (ffôn: 0151 609 2568) am dâl o £150 am gopi papur a £10 ar DVD. Mae copïau o'r Crynodeb Annhechnegol ar gael yn rhad ac am ddim.

Bydd copïau o'r dogfennau ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn y manau canlynol:

Swyddfeydd Cyngor			
Wrecsam	Llyfrgell Wrecsam	Ffordd Rhosddu	Wrecsam
Stryd y Lampint	Llyfrgell Wrecsam	Ffordd Rhosddu	Wrecsam
Swyddfeydd Cynllunio Wrecsam	Llyfrgell Wrecsam	Ffordd Rhosddu	Wrecsam
Swyddfeydd Cynllunio Swydd Amwythig	Llyfrgell Rhosllannerchrugog	Princes Road	Rhos
Neuadd y Sir, Abbey Foregate			
Amwythig			
Swyddfeydd Cynllunio Croesoswallt	Llyfrgell Ellesmere	Fullwood House	Victoria Street
Castle View			
Croesoswallt			
Swyddfeydd Cynllunio Gogledd	Llyfrgell y Waun		
Edinburgh House, New Street			
Wem			

Llyfrgelloedd			
Mannau Eraill	Llyfrgell Owrtyn	Cocoa Rooms	Pen Y Llan Street
St Martin's Centre			
Overton Road			
St Martin's			
Owrtyn			
Llyfrgell Gobowen			
St Martin's Road			
Gobowenn			
Llyfrgell Rhwabon			
Y Stryd Fawr			
Rhiwabon			
Croesoswallt			
Swyddfeydd Cynllunio Gogledd	Llyfrgell y Waun		
Edinburgh House, New Street			
Wem			

Dylai unrhyw sylwadau ynglyn â'r cais gael eu hanfon drwy'r post at yr **Adran Ynni a Newid Hinsawdd**, Yr Uned Datblygu Ynni, Y Grŵp Ynni, Bae 2123, 1 Victoria Street, Llundain SW1H 0ET, gan enw'r cynnig a nodi'r rhesymau am gyflwyno sylwadau.

Dylai sylwadau gael eu dyddio a dylent ddatgan yn glir enw (mewn prif lythrennau) a chyfeiriad dychwelyd e-bost neu bost llawn y sawl sy'n gwneud y sylwadau. Bydd copi llawn o bob sylw a gyflwynir i'r llywodraeth yn cael ei anfon at yr awdurdod cynllunio, a byddant ar gael i'r cyhoedd os gwneir cais amdanynt, oni fydd unigolion yn gofyn yn wahanol.

Y CYNLLYN I ATGYFNERTHU Y RHWYDWAITH TRYDAN

132kV rhwng Legacy a Croesoswallt

Datganiad Amgylcheddol
Crynodeb Annhechnegol

